HEALTH, SOCIAL CARE & WELLBEING
IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES
"An altogether healthier way of working / Ffordd Iachach o Lawer o Weithio"

Her Iechyd Cymru Health Challenge Wales

EICH BYWYD – MEWN CYMUNED IACHACH

CRYNODEB

STRATEGAETH IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A LLES AR GYFER BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

2008 – 2011

NEGES GAN Y BARTNERIAETH IECHYD A LLES

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr ddyletswydd gyfreithiol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a lles a gwella ansawdd bywyd pobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym yn cwrdd â'n dyletswydd drwy weithio'n agos mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Abertawe Bro Morgannwg, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Iechyd Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr, ymysg eraill, i gynllunio a darparu gwasanaethau, sy'n dod yn gynyddol integredig. Bydd y ddogfen yn cyfeirio at y bartneriaeth fel 'Y Bartneriaeth Iechyd a Lles'.

Y cynllun yw'r ail Strategaeth o'i fath i gael ei gynhyrchu gan ddefnyddio proses asesu anghenion iechyd i ystyried beth ddylai fod yn flaenoriaethau ar gyfer cynllunio gwasanaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf. Rydym wedi cysylltu â chyflogedigion a phobl leol i ystyried a ydynt yn cytuno â themâu a blaenoriaethau'r strategaeth ac mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan.

Sylweddolwn nad oes modd i ni wella pob agwedd ar iechyd a lles dros y tair blynedd nesaf ac rydym wedi dewis targedu meysydd ar gyfer gwella lle mae gwendid neilltuol yn bodoli o fewn y boblogaeth leol ar hyn o bryd. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau gweithredu a gwelliannau i wasanaethau i helpu atal a rheoli clefydau cronig a iechyd meddwl gwael neu ddiffyg lles emosiynol. Lle mae'r cyflyrau hyn wedi cael eu nodi fel rhai sy'n gyffredin mewn cymunedau penodol neu grwpiau neilltuol o fewn y fwrdeistref sirol, byddwn yn gweithio i sicrhau bod adnoddau, arbenigedd a gwasanaethau penodol yn cael eu targedu at y rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Rydym yn derbyn bod iechyd a lles da'n bwysig i'r boblogaeth gyfan gan ei fod yn cynyddu ffyniant economaidd ac yn codi proffil y fwrdeistref sirol yn y tymor hirach. Mae'r cynllun hwn felly hefyd yn canolbwyntio ar gadw pobl yn iach, y rhai sydd ar hyn o bryd yn mwynhau iechyd da. Mae ble rydym yn byw a'n dewisiadau o ran dull o fyw yn gallu effeithio ar ein hiechyd a'n lles yn y dyfodol. Rydym yn sylweddoli pwysigrwydd y strategaeth hon yn cael ei chydgysylltu ac yn gweithio law yn llaw gyda strategaethau a phartneriaethau allweddol eraill sy'n gallu helpu i gynnal neu i wella iechyd a lles y boblogaeth gyffredinol.

Dyma ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol hirdymor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr:

Bydd iechyd a lles pobl Cyngor Bwrdeistref Pen-y-Bont ar Ogwr y gorau yng Nghymru

Bydd gan bawb fynediad priodol at wasanaethau o'r radd flaenaf sy'n cael eu cyflwyno gan sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd.

Credwn fod y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn un o'r prosesau allweddol fydd yn ein helpu i droi ein gweledigaeth yn realiti hirdymor.

Dr. Andrew Goodall
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-Bont ar Ogwr

Dr. Jo Farrar
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-Bont ar Ogwr

Mae'r cynllun hwn yn grynodeb o Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr ar gyfer 2008 - 2011. Mae fersiwn technegol manylach ar gael i'w lawrlwytho ar y gwefannau www.bridgendlhb.wales.nhs.uk neu www.bridgend.gov.uk. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd mae modd i chi dderbyn copi drwy'r post drwy gysylltu â Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-Bont ar Ogwr ar 01656 754400 neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr ar 01656 643643.

CRYNODEB O FATERION ALLWEDDOL O ADRAN 1

GWYBODAETH GEFNDIR

- Mae'r cynllun hwn yn un o blith nifer o gynlluniau lleol i helpu gwella iechyd a lles pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr.
- Mae'r cynlluniau eraill i wella iechyd cyffredinol y boblogaeth yn cynnwys:
  - Y Strategaeth Gymunedol
  - Y Cynllun Unigol i Blant (*ar gael ym mis Medi 2008)
  - Y Cynllun Datblygu Lleol
- Dyma'r ail Strategaeth HSCWB ac mae'n disodli'r cynllun blaenorol ym mis Ebrill 2008.
- Mae'r cynllun hwn yn anelu at wella iechyd a lles pobl, helpu pobl i dderbyn gwasanaethau cyhoeddus da ar yr adeg ac yn y lle y mae eu hangen arnynt a gwneud yn siŵr fod tegwch yn cael ei ddefnyddio gyda phawb sydd angen derbyn gwasanaeth.
- Mae partneriaeth o'r enw'r Bartneriaeth Iechyd a Lles yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod y cynllun hwn yn dylanwadu ar ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau lle mae meysydd â phroblemau penodol wedi cael eu nodi yn iechyd a lles y boblogaeth.
- Pan fydd y bartneriaeth yn datblygu neu'n prynu gwasanaethau, rhaid iddyn nhw fod yn seiliedig ar anghenion y gymuned.
- Rhaid i sefydliadau sy'n rhan o ddarparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles i bobl yn awr feddwl am faterion ehangach megis sut y gall pobl dderbyn y gwasanaeth hwnnw os oes unrhyw rwystrau'n bodoli a allai atal rhai pobl rhag derbyn gwasanaeth sydd ei angen arnynt.
- Bydd cynllun gweithredu cam wrth gam yn cael ei gynhyrchu ar gyfer y tair blynedd nesaf i wneud yn siŵr fod gwasanaethau'n gweithio i safonau cenedlaethol a lleol, er mwyn i bobl wybod beth y dylen nhw ei ddisgwyl gan eu gwasanaethau.

- Bydd pobl sy'n gyfrifol am brynu, trefnu neu ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn yn gorfod adrodd bob tri mis i'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd a Lles i wneud yn siŵr fod gwasanaethau'n cwrdd â'r targedau sydd wedi eu nodi yn y cynllun gweithredu.
- Unwaith y flwyddyn bydd adroddiad ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i anfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud yn siŵr fod y bartneriaeth yn cwrdd â thargedau a safonau cenedlaethol a lleol ac i rywun o'r tu allan i'r fwrdeistref sirol wirio ein bod yn datblygu, yn prynu neu'n darparu'r gwasanaethau sydd wedi cael eu cytuno.
- Byddwn yn edrych ar y cynllun hwn eto yn 2011 i wneud yn siŵr ei fod wedi gwneud yr hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud.
- Bryd hynny, rhaid bod prawf fod iechyd a lles pobl Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr yn gwella a bod pobl wedi llwyddo i gael y gwasanaethau oedd eu hangen arnynt pan oedd eu hangen arnynt heb unrhyw rwystrau dianghenraid neu wahaniaethu.
- Credwn y bydd partneriaethau rhwng yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol ac asiantaethau eraill yn allweddol i wella a moderneiddio gwasanaethau a chwrdd â'r targedau a'r safonau a nodir yn y cynllun gweithredu.

CRYNODEB O FATERION ALLWEDDOL O ADRAN 2

ADNABOD YR ANGEN LLEOL:

- Mae'r ddogfen dechnegol sydd i'w gweld ar wefannau'r BILl a'r Cyngor yn rhoi gwybodaeth fanylach ar sut y canfu'r bartneriaeth yr anghenion lleol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Casglodd y bartneriaeth yr wybodaeth hon drwy edrych ar ystadegau cenedlaethol a lleol, cynnal proses o asesu anghenion a thrwy ymgynghori â gwasanaethau a'r cyhoedd.
- Mae'r wybodaeth fanwl sydd yn y ddogfen dechnegol ar gyfer cynllunio gwasanaethau lleol yn cynnwys gwybodaeth ar:
    - Poblogaeth gyffredinol y fwrdeistref sirol yn debyg i'r wybodaeth y byddech chi'n ei chael o'r cyfrifiad.
    - Nifer o bobl sydd wedi eu cofrestru gyda meddyg.
    - Cyfartaledd oedran marwolaeth pobl.
    - Canran y bobl sydd â phroblemau iechyd o gymharu â gweddill Cymru.
    - Cyfartaledd y bobl sy'n gadael yr ysgol gyda chymwysterau cydnabyddedig.
    - Canran y bobl sy'n gweithio neu'n hawlio budd-daliadau.
    - Nifer y bobl sydd angen help gyda thai.
    - Canran yr ardaloedd o fewn y fwrdeistref sirol lle mae grwpiau o bobl a allai fod yn fwy difreintiedig yn gymdeithasol.
    - Canran y bobl sy'n gwneud dewisiadau dull o fyw a allai gael effaith negyddol ar iechyd yn y tymor hir megis ysmygu, yfed gormod o alcohol, cymryd cyffuriau, gorfwyta neu beidio bwyta digon o ffrwythau a llysiau neu beidio gwneud unrhyw ymarfer corff.
    - Materion amgylcheddol allai gael effaith ar iechyd megis ansawdd yr aer rydym yn ei anadlu a record y fwrdeistref sirol ar ail-gychu.

    - Materion diogelwch fel damweiniau ffordd lefel uchel a lefel is na'r cyfartaledd o droseddau sy'n cael eu reportio.
- Dangosodd y Broses Asesu Anghenion Iechyd y dylai'r Bartneriaeth Iechyd a Lles ffocysu ei sylw dros y tair blynedd nesaf ar y blaenoriaethau canlynol:
    - Cynyddu gweithgaredd corfforol a gwella maethiad.
    - Atal a rheoli clefydau cronig.
    - Gwella iechyd meddwl a lles emosiynol.
    - Mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol.
- Dyma'r pedwar prif faes y mae'n rhaid eu gwella dros y tair blynedd nesaf. Mae llawer o feysydd eraill fydd hefyd yn cael eu hystyried o fewn yr adnoddau sydd ar gael yn y fwrdeistref sirol ac yn unol â chynlluniau eraill megis y Cynllun Unigol Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Datblygu Lleol fel gwella cludiant a chynyddu cyfleoedd addysgiadol.
- Yn ystod y cyfnod ymgynghori canfuwyd fod pobl ar y cyfan yn cytuno gyda themâu a blaenoriaethau'r Strategaeth HSCWB ddrafft, sef, yn gryno:
    - Themâu – Cynhwysiad Cymdeithasol; Byw yn Iach a Lles a Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
    - Blaenoriaethau gweithredu – Cynyddu Gweithgaredd Corfforol a Gwella Maethiad; Rheoli Clefydau Cronig; Gwella Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol.
- Fodd bynnag, gofynnwyd i'r bartneriaeth drwy ymgynghoriad ystyried yn ei gynllunio i'r dyfodol:
    - Pwysau ar wasanaethau gyda chynnydd yn y galw a disgwyliadau uwch gan y cyhoedd.
    - Mesurau i leihau tlodi a chadw pobl yn ddiogel rhag niwed.
    - Ystyriaeth i anghenion pobl ag afiechyd marwol neu ar ddiwedd eu bywydau, yn cynnwys gwasanaethau cefnogi i bobl mewn profedigaeth.
    - Gwneud yn siŵr fod materion ehangach yn cael eu hystyried wrth gynllunio megis meddwl am gredoau pobl a mynd i'r afael â materion megis oedran a gwahaniaethu arall.
    - Ystyried materion amgylcheddol ehangach yn yr asesiad anghenion megis y posibilrwydd o lygredd gan dechnoleg sy'n datblygu a mynediad i fannau gwyrdd.
    - Gwella cludiant mewn cymunedau gwledig i gael mynediad i wasanaethau.
    - Mwy o hyblygrwydd mewn apwyntiadau gyda meddygon teulu.
    - Mwy o brosiectau cymunedol i wella lles corfforol ac emosiynol.

CRYNODEB O FATERION ALLWEDDOL O ADRAN 3

DYSGU O BROFIAD:

- Mae'r Bartneriaeth Iechyd a Lles wedi helpu neu gefnogi datblygiad nifer o strategaethau neu wasanaethau dros y blynyddoedd diweddar i wella iechyd a lles y boblogaeth, megis:
    - Y Strategaeth Adfywio

- Her Iechyd Pen-y-Bont ar Ogwr
- Plant a Phobl Ifanc
- Pobl Anabl
- Iechyd Meddwl
- Pobl Hŷn
- Pobl sydd angen tai fforddiadwy
- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau hamdden drwy gysylltu i mewn i'w meddygfa
- Mentrau Diogelwch y Gymuned
- Pobl sydd angen cymorth am eu bod yn yfed gormod o alcohol neu'n cymryd cyffuriau
- Gofalwyr sy'n edrych ar ôl pobl heb gael eu talu
- Grwpiau Cefnogi Cymunedol
- Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion (y Gwasanaethau Cymdeithasol gynt)
- Gofal Sylfaenol(Meddygon/Deintyddion/Fferyllwyr/ Optometryddion)
- Gwasanaethau Ysbyty i'r Gymuned

(Mae gwybodaeth fanwl ar bob un o'r strategaethau neu feysydd gwasanaeth uchod ar gael yn y ddogfen dechnegol ar wefan y BILl neu'r Cyngor).

- Mae'r Bartneriaeth Iechyd a Lles wedi symud ymlaen eithaf tipyn dros y blynyddoedd diwethaf ond mae ganddi lawer o waith ar ôl i'w wneud dros y tair blynedd nesaf.
- Mae llawer o heriau o'n blaen, sy'n golygu bod rhaid i ni weithio gyda'n gilydd yn agosach ar draws strategaethau ac asiantaethau i wneud yn siŵr ein bod yn cwrdd â'r anghenion sydd wedi cael eu nodi.
- Weithiau bydd angen i ni gydgysylltu systemau megis gwaith papur a gwybodaeth ar draws asiantaethau neu weithiau bydd yn golygu cydgysylltu timoedd neu grwpiau o weithwyr a gwneud yn siŵr fod ganddynt lefydd i weithio ynddynt.
- Mae angen i ni wneud yn siŵr fod y bobl iawn gennym, gyda'r sgiliau iawn yn y swyddi iawn.
- Rhaid i ni hefyd gynllunio ar gyfer unrhyw bobl newydd sy'n dod i fyw i'r fwrdeistref sirol ac unrhyw anghenion allai fod ganddynt.

CRYNODEB O FATERION ALLWEDDOL O ADRAN 4

THEMÂU STRATEGOL AR GYFER STRATEGAETH HSCWB 2008 – 2011:

Tair thema'r cynllun hwn fydd:

- Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd
- Byw yn Iach a Lles
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd - yn golygu gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried pob agwedd o iechyd rhywun, megis yr amgylchedd ble maen nhw'n byw; addysg a chyflogaeth; dylanwad teulu, cymdogion a ffrindiau a gallu cael gwasanaethau cefnogi pan fydd eu hangen. Byddwn yn defnyddio ystyr a

gydnabyddir yn genedlaethol am 'iechyd' o fis Ebrill 2008 fel bod gwasanaethau'n ystyried person yn ei gyfanrwydd ac nid dim ond fel rhywun sy'n sâl neu'n anabl. Bydd gwasanaethau'n cael eu profi i sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion pobl o bob lliw a llun gan ddangos parch i bobl o wahanol gefndiroedd a diwylliannau.

Byw yn Iach a Lles - mae'n cynnwys nifer o wasanaethau cyffredinol o fewn y cyngor a'r sector gwirfoddol sy'n gallu helpu pobl i wella eu hiechyd a'u lles cyffredinol. Bydd y gwasanaethau yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â gwasanaethau fel gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol - fe fydd yna bobl bob amser sydd angen gwasanaethau arbenigol neu dymor hir oherwydd bod angen triniaeth feddygol arnyn nhw neu ofalwyr cyflogedig i ofalu amdanynt. Rydym eisoes wedi cydgysylltu llawer o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr ac rydym wedi cael canmoliaeth genedlaethol am rai o'r datblygiadau newydd hyn. Serch hynny, mae gennym ffordd bell i fynd o hyd. Byddwn yn parhau i gydgysylltu gweithwyr a chyllidebau lle mae hyn yn ymarferol er mwyn gwneud yn siŵr fod pobl yn y gymuned yn gallu cael at wasanaethau'n gyflymach a'u bod yn cael tegwch o'r gwasanaethau hyn.

CRYNODEB O FATERION ALLWEDDOL O ADRAN 5

NODI BLAENORIAETHAU A GWEITHREDU'R CYNLLUN HSCWB 2008 - 2011:

- Mae'n rhaid i ni nodi'r meysydd lle mae angen i iechyd wella ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr dros y tair blynedd nesaf oherwydd nad oes modd i ni wella popeth yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Y prif feysydd i'w blaenoriaethu ar gyfer y tair blynedd nesaf (*ein targedau rhaid eu gwneud) yw:
    - Cynyddu disgwyliad oes.
    - Lleihau lefelau o glefydau cronig, yn benodol clefyd y galon, strôc, clefydau resbiradol, diabetes a chanser.
    - Gwella iechyd meddwl a lles emosiynol.
    - Lleihau'r camddefnydd o alcohol.
    - Gwella dewisiadau dull o fyw.
- Nid dyma'r unig dargedau ar gyfer y tair blynedd nesaf ac fe fydd yna eraill y gallwn eu cyflawni os bydd gennym ddigon o amser ac adnoddau.
- Bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu gan bartneriaid gyda gweithredoedd penodol ar gyfer meysydd gwasanaeth i sicrhau ein bod yn cwrdd â'r blaenoriaethau a amlinellwyd uchod.
- Bydd adroddiad yn mynd i Lywodraeth Cynulliad Cymru unwaith y flwyddyn i sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn a ddywedasom y byddem yn ei wneud i wella iechyd a lles y bobl ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr.

SUT I GAEL GWYBOD MWY

Mae'r fersiwn technegol manylach o'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008 – 2011 ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr ar gael i'w lawrlwytho ar y gwefannau www.bridgendlhb.wales.nhs.uk neu www.bridgend.gov.uk

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd mae modd i chi dderbyn copi drwy'r post drwy gysylltu â Chydlynydd y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ym Mwrdd Iechyd Lleol Pen-y-Bont ar Ogwr ar 01656 754400 neu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr ar 01656 643643.

Mae copïau Braille, print bras neu ar CD hefyd ar gael gan y Cydlynydd.